CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Cynllun gweithredu 2019–20



## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2019–20

### Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau'r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysg yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2019–20, a baratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n esbonio sut byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r strategaeth a nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Strategaeth Cymraeg 2050.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ygymraeg

### Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (2016)

© Hawlfraint y Goron 2019 WG37608 ISBN digidol 978 1 83876 064 9

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** **3**

**Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg** **13**

**Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** **18**

# Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ym mis Gorffennaf 2017. Cyhoeddwyd y ddogfen *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* ar y cyd â Strategaeth *Cymraeg 2050* ac mae'n cynnwys amcanion ar gyfer pedair blynedd cyntaf y strategaeth.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn Strategaeth *Cymraeg 2050* yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2019–20.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adlewyrchu themâu *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.**
- **Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.**
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.**

Mae'r pwyntiau gweithredu ar gyfer y flwyddyn adrodd 2019–20 wedi'u gosod yn erbyn yr amcanion fel y'u nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*.

## Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

### Targed: Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.

### 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

**Ein nod:** rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **1.1**<br>Cydweithio â'r prif randdeiliaid i ddatblygu polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant. | Bydd polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2019-20, wedi ei ategu gan gynlluniau peilot i dreialu gwahanol ymyraethau â'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg gyda'u plant. |
| **1.2**<br>Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref. | Cychwynnodd rhaglen Cymraeg i Blant yn Ebrill 2016. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan ei ragflaenydd, 'Twf'.<br><br>Bydd argymhellion gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen a gyhoeddwyd fis Chwefror 2019, yn cael eu plethu i weithrediad Cymraeg i Blant o fis Ebrill 2019 ymlaen. |
| **1.3**<br>Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwragedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. | Bydd y rhaglen Cymraeg i Blant yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid ym maes iechyd ac mewn meysydd eraill er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a darpar rieni am drosglwyddo iaith. Bydd y gwaith hwn yn cymryd i ystyriaeth argymhellion gwerthusiad o'r rhaglen Cymraeg i Blant a gyhoeddwyd fis Chwefror 2019 – gweler 1.2. |

## 2. Y blynyddoedd cynnar

**Ein nod:** ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **Carreg filltir:** Cefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf. | Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-19, bydd rhaglen benodol wedi'i rheoli gan Mudiad Meithrin yn parhau i sefydlu cylchoedd meithrin newydd yn ystod 2019-20. Bydd tystiolaeth gyfredol yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth ar hyn o bryd, a bod eu sefydlu yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y plant mewn addysg Gymraeg. |
| **2.1**<br>Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru, gan sicrhau mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg dan nawdd y llywodraeth, a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail yr wybodaeth a ddaw i law yn ystod cyfnod gweithredu cynnar y cynnig o fis Medi 2017. | Bydd y Cynnig Gofal Plant yn parhau i gael ei ymestyn i ardaloedd newydd yn ystod 2019-20. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir am ddefnydd teuluoedd o wasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wrth ddatblygu rhaglenni eraill. Bydd negeseuon Cymraeg i Blant am ofal plant ac addysg Gymraeg yn cael eu plethu i ymgyrch gyfathrebu y Cynnig Gofal Plant er mwyn annog cynifer o deuluoedd â phosibl i fanteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynnig. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i roi ar waith prosiectau cyfwerth â £33m i adnewyddu lleoliadau gofal plant cyfredol a datblygu lleoliadau gofal plant newydd. |
| **2.2**<br>Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol gan gynorthwyo darparwyr i ehangu a dod yn hunan-gynhaliol, yn ogystal â chefnogi ehangu'r ddarpariaeth i greu 40 yn fwy o grwpiau meithrin gan dargedu mannau wedi'i hadnabod trwy weithgarwch y Cynnig Gofal Plant lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar hyn o bryd. | Bydd ystod o gefnogaeth yn parhau i gael ei gynnig i'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2018-19 a arweiniodd at sefydlu 10 grŵp meithrin newydd.<br><br>Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth y mae Mudiad Meithrin yn ei chynnig i'w aelodau i gryfhau ac ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.<br><br>Bydd Cwlwm, sef consortiwm o bum sefydliad ymbarél ym maes gofal plant a chwarae, hefyd yn cynnig cefnogaeth benodol i'r sector yn ei gyfanrwydd i ehangu ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **2.3**<br>Drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cydweithio ag awdurdodau lleol a darparwyr i wella'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. | Sefydlwyd y Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), dan gadeiryddiaeth Aled Roberts, ym mis Mai 2018 i gynnig cyngor ar newidiadau i'r seilwaith cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg, yn unol ag uchelgais *Cymraeg 2050*.<br><br>Mae'r gwaith o ddrafftio rheoliadau diwygiedig yn mynd rhagddo, gyda bwriad i ymgynghori ar reoliadau a chanllaw CSGA drafft fis Mai 2019. Mae ymrwymiad wedi'i wneud yn yr amserlen ddeddfwriaethol i osod y Rheoliadau CSGA cyn diwedd 2019. |

## 3. Addysg statudol

**Ein nod:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **Carreg filltir:** Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, a hynny er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050. | Bydd y gwaith o baratoi ar gyfer cylch newydd y CSGA o 2021 yn parhau.<br><br>Bydd y Gweinidog Addysg yn gwneud datganiad ysgrifenedig fis Mawrth 2019, gyda diweddariad pellach ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau gan y Bwrdd Cynghori ac unrhyw argymhellion a wnaed er mwyn cryfhau'r gwaith o gynllunio'r Gymraeg mewn addysg drwy gyfrwng y CSGA.<br><br>Bydd y gwaith o ymgynghori ar Reoliadau mewn perthynas â'r CSGA yn digwydd ar ôl y Pasg, gyda'r bwriad o osod y rheoliadau erbyn diwedd 2019. |
| **3.1**<br>Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chyhoeddi cyn diwedd 2017, polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol, yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth. | Byddwn yn parhau i weithredu *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* yn ystod 2019-20, gan sicrhau fod y Gymraeg yn ganolog i'r diwygiadau ym maes addysg. |
| **3.2**<br>Datblygu un continwwm o addysgu a dysgu Cymraeg i'w gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod y gwaith o asesu ac arholi sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg yn gwbl gysylltiedig â'r addysgu a'r dysgu. | Bydd y cwricwlwm newydd, a fydd yn cynnwys un continwwm o ddysgu Cymraeg, yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022.<br><br>Mae Papur Gwyn ar y cwricwlwm 'Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol' wedi ei gyhoeddi, a dyma fydd y man cychwyn ar gyfer datblygiadau pellach yn y ddeddfwriaeth i osod sail i'r cwricwlwm newydd.<br><br>Bydd fersiwn drafft o feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sy'n seiliedig ar gontinwwm dysgu, yn cael ei gyhoeddi fis Ebrill a fersiwn derfynol erbyn mis Ionawr 2020. |
| **3.3**<br>Sefydlu bwrdd annibynnol i roi cyngor ar newidiadau i brosesau cynllunio addysg Gymraeg. | Sefydlwyd y Bwrdd Cynghori CSGA, dan gadeiryddiaeth Aled Roberts, fis Mai 2018 i gynnig cyngor ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol ag uchelgais *Cymraeg 2050*. Aelodau'r Bwrdd Cynghori yw Aled Roberts, Meirion Prys Jones, Dylan Foster Evans (Cadeirydd), Bethan Morris-Jones a Sarah Mutch. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **3.4**<br>Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg Gymraeg. | Prif swyddogaeth y Bwrdd Cynghori CSGA yw gweithredu yr 18 o argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r adolygiad brys o'r CSGA. Un o flaenoriaethau'r Bwrdd oedd adolygu *Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*, fel bod nod *Cymraeg 2050* o greu system addysg sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus yn cael ei gefnogi gan ofynion a chanllawiau statudol clir.<br><br>Mae'r gwaith o ddrafftio rheoliadau diwygiedig yn mynd rhagddo, gyda bwriad i ymgynghori ar reoliadau a chanllaw CSGA drafft fis Mai 2019. Mae ymrwymiad wedi ei wneud yn yr amserlen ddeddfwriaethol i osod y Rheoliadau CSGA cyn diwedd 2019. |
| **3.5**<br>Creu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynllunio uchelgeisiol, a phennu targedau cyraeddadwy ond realistig, gan wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd eisoes gennym. Gallai hyn gynnwys buddsoddi cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. | Byddwn yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i fonitro cynnydd a datblygiadau yn sgil yr arian cyfalaf a ddyrannwyd yn ystod 2018-2019. |
| **3.6**<br>Adolygu'r diffiniadau a'r categorïau ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn unol â'r iaith addysgu. | Yn ogystal â'r gwaith i ddiwygio'r Rheoliadau, mae'r Bwrdd Cynghori CSGA wedi bod yn ystyried argymhelliad yr Adolygiad Brys o ran adolygu diffiniadau ysgolion a'r categorïau sy'n bodoli ar gyfer ysgolion sy'n darparu gwahanol raddau o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith ymchwil i adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng addysgu yn mynd rhagddo, a bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu hadlewyrchu ym maes y Cwricwlwm yn ôl y galw. |
| **3.7**<br>Adolygu'r broses ar gyfer cynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. | Byddwn yn parhau i gymryd camau pendant tuag at y nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn ein cymhellion ariannol i ddenu athrawon sy'n mynd ymlaen i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ymchwil ar gyfer adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yng Nghymru, a datblygu cyfleoedd e-ddysgu i ddisgyblion mewn ysgolion gwledig. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **3.8**<br>Cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn y sector cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid. | Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu CSGA sut i gynyddu'r cyfleoedd trochi hwyr ar gyfer dysgwyr addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ac i gryfhau'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer hwyrddyfodiaid. |
| **3.9**<br>Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. | Yn ystod 2018–19, bydd swyddogion marchnata'r Gymraeg, tîm cynllunio'r cwricwlwm, a swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cydweithio i ddatblygu ymgyrchoedd addas sy'n cyd-fynd ag amserlen cyflwyno'r cwricwlwm newydd. |
| **3.10**<br>Cryfhau'r cysylltiadau ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant rhwng gwahanol gyfnodau addysg. | Byddwn yn parhau i gydweithio a chryfhau'r cysylltiadau gyda phob un o'n partneriaid er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant ym mhob cyfnod addysg. Bydd Argymhellion 1 a 3 o adolygiad brys CSGA Aled Roberts hefyd yn ystyriaethau perthnasol wrth gytuno ar y deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o'r CSGA. |

## 4. Addysg ôl-orfodol

**Ein nod:** datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'wdefnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **4.1**<br>Ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan roi sylw penodol i'r cyfraddau sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, a datblygu addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi. | Cafodd y *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2018. Yn sgil hynny, bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn datblygu rhaglen i flaenoriaethu gweithgareddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn ystod 2019-2020. Bydd yn gwneud hyn mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol. |
| **4.2**<br>Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysg bellach o ran y cyrsiau sydd ar gael a niferoedd y myfyrwyr sy'n eu dilyn. | Gweler 4.1.<br><br>Law yn llaw â datblygu'r cynllun gweithredu, byddwn yn cydweithio â'r Gangen Cynllunio a Chyllido Ôl-16 i osod cyfeiriad ar gyfer cynyddu darpariaeth, ac yn adrodd ar fesurau perfformiad pwrpasol. |
| **4.3**<br>Sicrhau bod mwy o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn cael y cyfle i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle hwnnw, gan gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu haddysg, ni waeth pa mor rhugl ydynt. | Bydd Cynllun Gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymgorffori datblygiadau i hybu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ei weithgareddau yn ystod 2019-20. |
| **4.4**<br>Datblygu ymgyrchoedd marchnata drwy gydweithio â chyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle. | Bydd Cynllun Gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnwys gwaith i farchnata manteision dwyieithrwydd i bobl ifanc wrth ddewis eu llwybrau addysg a hyfforddiant. |
| **4.5**<br>Drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ehangu darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gynnwys mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle. | Bydd y rhaglen Cymraeg Gwaith yn parhau yn ystod 2019-20. Bydd cyrsiau pellach wedi'u teilwra i anghenion sectorau penodol ar gael yn ystod y flwyddyn. |

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Ein nod:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **Cerrig milltir:**<br>• Cynnydd yn nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,100 yn 2021.<br>• Cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg o 500 i 600 erbyn 2021, a'r nifer sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 2,200 erbyn 2021. | |
| **5.1**<br>Ehangu cynllun hyfforddiant cenedlaethol y Mudiad Meithrin i sicrhau fod mwy o unigolion yn cymhwyso i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant. | Bydd Mudiad Meithrin yn parhau i ddatblygu'r arlwy o hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael i staff a gwirfoddolwyr ei aelodau yn ystod 2019-20.<br><br>Bydd casgliad o gyrsiau wedi'u datblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda'r nod o feithrin gallu'r gweithlu gofal plant a chwarae i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael eu cynnig i aelodau Cwlwm, sef consortiwm o bum sefydliad ymbarél yn y maes. |
| **5.2**<br>Datblygu dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a'i allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio'r gweithlu. | Bydd cwestiynau am sgiliau ieithyddol ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy'r Gymraeg yn cael eu cynnwys fel rhan o broses Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol o fis Tachwedd 2019, yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017. |
| **5.3**<br>Sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg cychwynnol athrawon y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'u harbenigedd i addysgu drwy'r Gymraeg. | Bydd partneriaethau addysg gychwynnol athrawon newydd yn dechrau darparu o fis Medi 2019, yn unol â'r meini prawf achredu, sy'n cynnwys disgwyliad i ddatblygu sgiliau iaith pob hyfforddai a gallu hyfforddeion i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r partneriaethau newydd i weithredu argymhellion y gwerthusiad o'r ddarpariaeth bresennol ym maes addysg gychwynnol athrawon.<br><br>Mae'r cymhelliant Iaith Athrawon Yfory wedi bod ar gael i hyfforddeion ers mis Medi 2018. Yn ystod 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holl gymhelliannau i hyfforddeion. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **5.4**<br>Datblygu rhaglen ddysgu broffesiynol i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chefnogaeth drwy'r consortia rhanbarthol. | Rydym wedi cynyddu'r buddsoddiad yn y gweithlu addysg i £5m yn 2019-20, yn dilyn dyraniadau o £4.2m yn 2017-18 a £4.8m yn 2018-19.<br><br>Mae hwn wedi ein galluogi i fuddsoddi mwy yn y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, sy'n darparu hyfforddiant iaith dros gyfnodau dwys i ymarferwyr. Yn ogystal, mae'r consortia rhanbarthol yn derbyn cyllid i ddatblygu a darparu rhaglen ranbarthol o ddysgu proffesiynol i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r cynllun sabothol a'i gyfraniad i'r gwaith o gynnig darpariaeth ym maes datblygiad proffesiynol iaith Gymraeg neu gyfrwng Cymraeg i ymarferwyr. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn sail i ddatblygiad strategol y Cynllun Sabothol a hyfforddiant ymarferwyr yn y dyfodol.<br><br>Yn dilyn y symposiwm ar addysgu ail iaith yn effeithiol, bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'n hymarferwyr a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y consortia rhanbarthol, ymchwilwyr a darparwyr hyfforddiant, yn parhau i ddatblygu canllawiau, hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr wella'r modd o addysgu'r Gymraeg yn ein hysgolion cyfrwng-Saesneg. |
| **5.5**<br>Cefnogi y gweithlu o fewn y sector addysg ôl-16 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gynllun hyfforddiant penodol er mwyn cynyddu capasiti'r sector i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Yn ystod 2019-20, byddwn yn parhau i gefnogi Sgiliaith i ddarparu cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn cynyddu'r capasiti a'r ddarpariaeth i gefnogi myfyrwyr sy'n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog,<br><br>Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal rhaglen Cymraeg Gwaith yn y colegau addysg bellach i ddatblygu sgiliau ieithyddol tiwtoriaid, er mwyn galluogi rhagor o ddysgu dwyieithog i ddigwydd gyda myfyrwyr. |
| **5.6**<br>Cynllunio seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda ffocws o'r newydd ar y sectorau ôl-16. | Byddwn yn sefydlu Grŵp Strategol Cymru Gyfan, a fydd yn cynnwys prif randdeiliaid addysg, i ddatblygu'r model cyflenwi adnoddau arfaethedig ymhellach. Bydd y grŵp yn adnabod yr anghenion ar draws Cymru gan sicrhau gwerth am arian a bod adnoddau addas a pherthnasol yn cael eu cyflenwi yn amserol i gefnogi dysgwyr 3-19 oed. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **5.7**<br>Datblygu mwy o adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. | Byddwn yn comisiynu adnoddau ar ôl cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y maes. |
| **5.8**<br>Cydweithio â Cymwysterau Cymru i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg. | Mae cymwysterau yn rhan allweddol o'r gwaith y bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ei wneud o dan ei Gynllun Gweithredu. Bydd hefyd yn parhau i gydweithio â Chymwysterau Cymru i sicrhau bod ystod addas o gymwysterau ac asesiadau priodol ar gael yn Gymraeg. |

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

### Targed: Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

### 6. Y gweithle

**Ein nod:** cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **6.1**<br>Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain. | Byddwn yn cyflwyno argymhellion i uwch swyddogion Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gytuno ar bolisi defnydd mewnol er mwyn hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg y gweithlu. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y polisi ac yn dechrau ei roi ar waith yn ystod 2019-2020. |
| **6.2**<br>Parhau i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg. | Yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i gyflwyno Bil y Gymraeg, byddwn yn ystyried rhaglen i ddod â mwy o gyrff o dan Safonau. |
| **6.3**<br>Datblygu a chyflwyno fframwaith cymorth cenedlaethol fel rhan o raglen newydd i hybu'r Gymraeg er mwyn annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd yn y gweithle a chymryd camau i wneud hynny'n realiti. | Bydd y prosiect Cymraeg Byd Busnes yn parhau, ac yn cynnwys dau swyddog newydd yn ardaloedd Ceredigion a Chaerffili. Bydd y gwaith yn ystod 2019-2020 yn canolbwyntio ar dri maes penodol: twristiaeth, bwyd a diod, a manwerthu.<br><br>Nod y rhwydwaith o swyddogion yw cynnig cymorth ymarferol i fusnesau er mwyn cynyddu eu defnydd gweledol a chlywedol o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyfieithiadau byr ar gyfer arwyddion, deunydd marchnata a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Bydd Llinell Gymorth yn cael ei lansio yn ystod 2019-2020. Ceir hefyd ymgyrch farchnata i annog busnesau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Cymraeg Byd Busnes. Byddwn yn cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ar y gwaith hwn. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **6.4**<br>Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd – i sefydlu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynllunio'r gweithlu fel rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus. | Bydd rhaglen o ymyraethau yn y gweithle (prosiect 'ARFER') yn parhau ac yn adrodd ar sail ystadegau cadarn er mwyn dangos cynnydd / lleihad yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>Bydd rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol yn cael ei threialu gydag arweinwyr y sector cyhoeddus. Byddwn yn asesu llwyddiant y cynllun peilot cyn bwrw ati i ehangu'r prosiect. Gwneir hyn ar y cyd ag AcademiWales. |
| **6.5**<br>Ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle i gyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gan roi pwyslais penodol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. | Gweler 4.5. |

## 7. Gwasanaethau

**Ein nod:** cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **7.1**<br>Adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 â'r nod o sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. | Ar 1 Chwefror 2019, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol benderfyniad y Cabinet i beidio â chyflwyno Bil y Gymraeg yn y Cynulliad hwn.<br><br>Yng ngoleuni'r penderfyniad hwn, byddwn yn ystyried sut orau i weithredu amcanion y Papur Gwyn *Taro'r Cydbwysedd Iawn* heb fod angen deddfu. |
| **7.2**<br>Parhau i gyflwyno Safonau'r Gymraeg i sefydliadau o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth. | Yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i gyflwyno Bil y Gymraeg, byddwn yn ystyried rhaglen i ddod â mwy o gyrff o dan Safonau. |
| **7.3**<br>Gwneud gwaith ymchwil i dechnegau newid ymddygiad er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well mewn ymateb i'r nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg. | Mae'r prosiect ARFER (gweler 6.4) yn parhau. Mae'r prosiect hwn yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad.<br><br>Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo sefydliadau i ddarparu gwasanaethau technolegol drwy'r Gymraeg, ar sail ymchwil berthnasol o'r gwyddorau ymddygiadol. Gwneir hyn ar y cyd â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. |
| **7.4**<br>Adolygu a gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran y pwyntiau gweithredu a amlinellwyd yn *Mwy na geiriau . . . . Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–2019*, gan gynnwys darparu'r cynnig rhagweithiol. | Caiff Gwerthusiad Interim ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2019 i :<br>- gadarnhau anghenion casglu data<br>- dylunio offer ymchwil<br>- penderfynu ar feysydd ymchwil astudiaethau achos<br>- ymgysylltu ag astudiaethau achos.<br>Caiff y Gwerthusiad Terfynol ei gynnal rhwng mis Awst 2019 a mis Mai 2020. |
| **7.5**<br>Fel rhan o'r Fframwaith Cymorth Cenedlaethol i Fusnesau, cynyddu dealltwriaeth a manteisio ar gyfleoedd i gryfhau gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid. | Gweler 6.3. |

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Ein nod:** sdefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **8.1**<br>Sefydlu Rhaglen Hybu'r Gymraeg newydd i ddatblygu a darparu cynllun cydgysylltiedig i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywydau pobl. | - Mae ein rhaglen o weithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn parhau. Bydd y Llinell Gyswllt yn cael ei lansio yn gynnar yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd y Llinell yn rhoi gwasanaeth cyfieithu am ddim i fusnesau bach ac elusennau<br><br>- Bydd gwaith yn parhau fel rhan o Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl-16 y sectorau hyn.<br><br>- Bydd rhwydwaith Cymraeg Byd Busnes yn parhau ac yn asio'n dynn â'r gwasanaeth Llinell Gyswllt newydd fel bod swyddogion y rhwydwaith yn cyfeirio ymholiadau i'r Llinell a'r Llinell yn cyfeirio galwyr at y rhwydwaith. Bydd brand a theitl newydd i'r Llinell yn cael eu cyflwyno yn fuan yn y flwyddyn ariannol.<br><br>- Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad fis Hydref 2018. Awn ati i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. |
| **8.2**<br>Rhoi fframwaith ystyrlon ar waith er mwyn annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc ac i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol. | Byddwn yn parhau i gefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg drwy:<br>- ariannu cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth<br>- cynnal adolygiad llawn o'r cynllun grant i Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg i feithrin gwell dealltwriaeth o beth yw'r anghenion, er mwyn sicrhau cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn y gymuned<br>- cryfhau cysylltiadau rhwng y sefydliadau sy'n cefnogi defnydd anffurfiol pobl ifanc<br>- gweithredu ar ganlyniadau gwaith a wnaed i fapio'r ddarpariaeth gymunedol ar lefel sirol a chynllun datblygu y 'Fframwaith Sirol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc'.<br><br>Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni defnydd iaith cysylltiol. Bydd y gwerthusiad yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2019 ac yn sail i waith i ddatblygu'r rhaglen at y dyfodol.<br><br>Rydym wedi comisiynu hyfforddiant defnydd iaith anffurfiol ar |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| | gyfer 2018-2020. Mae'r rhaglen eisoes ar waith a bydd yn parhau hyd at fis Mawrth 2020. |
| **8.3**<br>Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a ariennir gennym, gan sicrhau bod y cyfleoedd ariannu yn gydnaws â'r strategaeth yn ogystal ag anghenion lleol. | Byddwn yn cynnal adolygiad o gynllun grant Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg i feithrin gwell dealltwriaeth o beth yw'r anghenion i sicrhau cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg<br><br>Mae'r cynllun grant cyfredol wedi'i ymestyn ar gyfer 19-20 ac felly byddwn yn parhau i reoli'r grantiau sy'n derbyn cyllid i Hybu a Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg. |
| **8.4**<br>Trwy ein cynlluniau cyllido, cefnogi teuluoedd i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. | Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant drwy ein cynllun grant i Hybu a Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Byddwn yn cydgynllunio'n ofalus â'r tîm sy'n arwain ar bolisi newydd yn ymwneud â throsglwyddo iaith, i sicrhau bod holl gynlluniau'r Llywodraeth yn y maes wedi'u cydlynu'n ofalus i sicrhau'r canlyniadau gorau. |
| **8.5**<br>Cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. | Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a'r Gangen Polisi Cymunedol a Thrydydd Sector i gynyddu gallu'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. |
| **8.6**<br>Datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned. | Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-19, bydd cynllun 'Siarad' yn parhau i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ar draws Cymru ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus. |

# Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

## 9. Cymuned a’r economi

**Ein nod:** cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **9.1**<br>Cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg*. | Cafodd TAN 20 ei gyhoeddi fis Hydref 2017. Bydd yn adnodd i ddylanwadu a chynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth iddynt ddatblygu ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. |
| **9.2**<br>Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun. | Bydd cynllun strategol Arfor yn cael ei gyhoeddi cyn ystod haf 2019. Bydd y cynllun strategol hwn yn sail ar gyfer gweithredu amryw o brosiectau arloesol yn siroedd Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Bydd y pwyslais ar ddatblygu’r seilwaith economaidd a fydd yn dod â budd hefyd i’r iaith Gymraeg.<br><br>Rydym bellach wedi sefydlu Unedau Rhanbarthol i gefnogi gwaith y Prif Swyddogion Rhanbarthol, er mwyn cyflwyno dimensiwn rhanbarthol cryfach a mwy effeithiol i’n polisïau a’r modd yr ydym yn eu rhoi ar waith.<br><br>Mae’r Prif Swyddogion Rhanbarthol a’r Unedau Rhanbarthol yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar lawr gwlad i adnabod a chytuno ar flaenoriaethau rhanbarthol ar y cyd.<br><br>Bydd pob rhanbarth yn datblygu Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol a fydd yn ceisio gwneud y mwyaf o gryfderau pob rhanbarth a’r cyfleoedd sydd ar gael yno. |
| **9.3**<br>Rhoi’r fframwaith ar gyfer y Gymraeg a’r canllawiau a ddatblygwyd ar y cyd â datblygwyr Wylfa Newydd ar waith a’u hadolygu. | Er yr oedi mewn perthynas â Wylfa Newydd, byddwn yn parhau i weithio gyda’r Adran Gynllunio er mwyn adnabod cyfleoedd i gynorthwyo’r Awdurdodau Cynllunio i ddeall yr hyn sy’n bosibl ac yn ofynnol o dan y deddfau, y rheoliadau a’r polisïau sy’n bodoli. Byddwn yn gwneud hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod yr awdurdodau yn ystyried gofynion y Gymraeg wrth baratoi a diwygio Cynlluniau Datblygu Lleol / Strategol. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **9.4**<br>Wrth ystyried cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o ddatblygiadau polisi a chynllunio'r awdurdodau lleol, gan gynnwys adnabod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau adran 106. | Gweler 9.3<br><br>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gynllunio er mwyn adnabod cyfleoedd i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wrth fabwysiadu a diwygio Cynlluniau Datblygu Lleol.<br><br>Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â'r Adran Gynllunio ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth iddynt baratoi Fframwaith Ddatblygu Cenedlaethol Cymru a'r Cynlluniau Datblygu Lleol. |
| **9.5**<br>Buddsoddi mewn rhaglenni entrepreneuraidd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg yng nghefn gwlad. | Bydd y gwaith o gefnogi rhaglenni entrepreneuriaeth yn parhau yn ystod 2019-20. |
| **9.6**<br>Gorchymyn i'r Comisiwn Seilwaith sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion ynghylch buddsoddi mewn seilwaith. | Byddwn yn parhau i gyfathrebu â'r Comisiwn Seilwaith er mwyn sicrhau bod y Strategaeth hon yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru. |
| **9.7**<br>Yn dilyn Brexit, sicrhau bod y gefnogaeth i'r diwydiant amaeth fel cyflogwr/busnes allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn parhau. | Bydd y gwaith o ystyried effaith Brexit ar y diwydiant amaethyddol a chymunedau gwledig yn parhau. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Amaeth a'r Adran Materion Gwledig er mwyn parhau i gynnig cefnogaeth i'r seilwaith wledig. |
| **9.8**<br>Sicrhau bod yna Gynlluniau Datblygu Lleol ar draws Cymru, a helpu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol fel bo'u hangen. Dylai pob cynllun roi ystyriaeth i'r Gymraeg. | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gynllunio er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth baratoi ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. |
| **9.9**<br>Lansio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn ystyried y Gymraeg yn elfen bwysig. | Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar ddrafft llawn o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019. Bydd y drafft a'r asesiadau effaith statudol yn ystyried effeithiau'r Fframwaith ar y Gymraeg yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. |

## 10. Diwylliant a'r cyfryngau

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **10.1**<br>Sicrhau bod sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru yn gallu cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt i hybu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn disgwyl i'r cyrff a noddir gennym, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru, chwarae rhan flaenllaw i'n helpu ni i wneud hyn. | Bydd swyddogion yn y maes diwylliant yn cefnogi'r nod hwn mewn amrywiol ffyrdd:<br><br>- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Archif Ddarlledu Genedlaethol, dan arweiniad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau (2024), bydd copïau wedi'u digideiddio o archif teledu a radio BBC Cymru Wales ar gael i'r cyhoedd yn ei chyfanrwydd – peth ohono ar-lein a pheth yn y Llyfrgell Genedlaethol ac yn y pedair canolfan treftadaeth ddigidol. Mae rhan fawr o'r casgliad yn Gymraeg, a bydd y prosiect hwn yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol ac mewn ysgolion.<br>- cefnogi cerddoriaeth Gymraeg drwy gyfrwng y prosiect Pyst. |
| **10.2**<br>Defnyddio'r Gymraeg fel rhan o 'Brand Cymru' i hybu Cymru er mwyn denu twristiaeth a buddsoddiadau. | Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales. Yn wir, mae'r iaith yn ysbrydoli elfennau creiddiol o'r brand, er enghraifft y ffont (sydd wedi ennill gwobr aur yng Ngwobrau Dylunio Ewrop) ac mae'n logo cenedlaethol hefyd.<br><br>Byddwn hefyd yn parhau i annog busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Yn y sector twristiaeth mae hyn yn cynnwys annog busnesau croeso i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn ganolog i hyn. |
| **10.3**<br>Drwy ein gweithgarwch noddi, sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd. | Bydd swyddogion polisi y Gymraeg a Diwylliant yn parhau i gydweithredu i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'r gydberthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw.<br><br>Bydd hefyd yn cynnwys ystyried ffyrdd o hyrwyddo cyfoeth diwylliant y Gymraeg fel rhan o elfen ddiwylliant strategaeth Ymgysylltu Rhyngwladol newydd y Llywodraeth. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **10.4**<br>Defnyddio'n dylanwad i sicrhau bod y cynnig mewn cysylltiad â radio a theledu a'r holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oed. | Adeg dyfarnu neu adolygu trwyddedau radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, byddwn yn parhau i godi gydag Ofcom a Llywodraeth y DU y dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg, drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo.<br><br>Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru. |
| **10.5**<br>Parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatiau, er mwyn bodloni'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd. | Drwy Gyngor Llyfrau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys llyfrau a chylchgronau i oedolion ac i blant, a'r gefnogaeth i'r Gwasanaeth Newyddion Digidol (Golwg 360).<br><br>Yn ystod 2019-20, bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn parhau i roi sylw arbennig i lyfrau plant a phobl ifanc (i wireddu rhai o argymhellion Adroddiad Siwan Rosser).<br><br>Bydd y tendr cylchgronau 2019-23 yn dechrau ar 1 Ebrill, a bydd yn cynnwys cefnogaeth i'r ddarpariaeth bresennol yn ogystal â dau gylchgrawn newydd: *Lysh,* sef cylchgrawn digidol i ferched yn eu harddegau ifanc, a *Cara,* sef cylchgrawn newydd i ferched.<br><br>Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn arwain y gwaith ar ran Adran Iechyd Llywodraeth Cymru (a thrwy'r Reading Agency) i sicrhau bod Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Bydd gweddill y ddarpariaeth Dementia a'r rhestr Iechyd Meddwl yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2019-20.<br><br>Bydd y tendr i gefnogi swyddi golygyddion creadigol yn y gweisg yn cael ei gynnal yn ystod 2019-20 a bydd yn gyfle i edrych o'r newydd ar y gefnogaeth i gyhoeddwyr. |

## 11. Cymru a'r byd ehangach

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **11.1**<br>Arwain drwy esiampl drwy gofleidio ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth gysylltu â'r byd ehangach, gan sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'w plethu i mewn i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig. | Byddwn yn chwarae rhan flaenllaw ym Mlwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO 2019 er mwyn:<br><br>• codi proffil Cymru yn rhyngwladol fel gwlad ddwyieithog<br>• dathlu hanes a diwylliant y Gymraeg yn rhyngwladol<br>• atgyfnerthu Cymru fel un o'r gwledydd arweiniol o safbwynt adfywio ieithyddol – ac i ddysgu gan eraill<br>• codi ymwybyddiaeth a meithrin balchder yng Nghymru o le'r Gymraeg yn y byd ymhlith teulu o ieithoedd.<br><br>Yn ystod 2018-19, fe wnaeth y Prif Weinidog lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chymuned Ymreolus y Basgiaid. Mae cydweithredu ym maes polisi ac ymchwil iaith yn rhan o'r cytundeb hwn a bydd y cydweithredu'n parhau eleni.<br><br>Caiff yr holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cefnogaeth grant gan yr Adran Digwyddiadau Mawr eu hannog i gyflwyno polisi iaith Gymraeg er mwyn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio'n effeithiol wrth lwyfannu a marchnata'r digwyddiad.<br><br>Bydd rhyw 20 o ddigwyddiadau yn cael eu cefnogi yn ystod 2019-2020, gan gynnwys Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a Chwpan Criced y Byd.<br><br>Mae'r Adran Digwyddiadau Mawr yn cydweithio'n agos â Thîm Hybu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac yn cyfeirio pob digwyddiad a gefnogir at y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y tîm hwnnw.<br><br>Pan fyddwn ni'n gweithredu dramor, rydym ni bob amser yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel un o asedau mwyaf gwerthfawr Cymru. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol ac y byddwn yn parhau i'w wneud yn ystod 2019-2020: annog pobl i recordio rhywbeth ar gamera yn Gymraeg a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'n hymdrechion cymell tawel o amgylch dydd Gŵyl Dewi er enghraifft; cynhyrchu bwydlenni dwyieithog ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol; defnyddio'r Gymraeg mewn areithiau; defnyddio'r iaith fel rhywbeth i gymell sgwrs mewn derbyniadau / digwyddiadau gan gynnwys cynnal gwersi iaith pan fo hynny'n bosibl. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| | Yn ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol, rydym yn gwneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei hyrwyddo fel gwlad ddwyieithog. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Strategaeth Ryngwladol newydd sydd wrthi'n cael ei datblygu.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r Ysgol hon yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.<br><br>Mae un prosiect arbennig yn golygu bod athrawon yn cael eu secondio i gymunedau allweddol, athrawon cynhenid yn cael eu datblygu, cyrsiau wedi'u strwythuro yn cael eu sefydlu a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo ym Mhatagonia. Fe'i rheolir gan y Cyngor Prydeinig ar ran Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cymru-Ariannin, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yr Urdd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. |
| **11.2**<br>Arwain drwy esiampl fel Llywodraeth, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog drwy ddylanwadu ar holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach. | Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig, weledol o'n holl ymgyrchoedd i farchnata Cymru'n gyffredinol. Defnyddir y Gymraeg mewn modd creadigol a blaenllaw yn ein hysbysebion print a ffilm newydd i farchnata Cymru'n rhyngwladol, ac mae cynnwys amrywiol am yr iaith ar wefan Wales.com. Bydd y Gymraeg hefyd yn parhau i fod rhan fawr o ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o Flwyddyn Darganfod 2019. |
| **11.3**<br>Gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu drwy dreialu ymyriadau, fel Prosiect Pecyn Croeso â Chyngor Sir Ynys Môn, ac os yw hwn yn llwyddiant, ei ehangu i awdurdodau lleol eraill. | Bydd y gwaith ar y cynllun Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg yn cael ei adolygu yn ystod 2019-20. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **11.4**<br>Datblygu gwell cefnogaeth i wella'r broses o integreiddio mewnddyfodiaid â chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn debyg i Raglen Voluntariat per la Llengua yng Nghatalwnia. | Gweler 8.6. |

## 12. Technoleg ddigidol

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **12.1**<br>Buddsoddi mwy mewn ymchwil ac arloesi ym maes technoleg iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn yr oes ddigidol. | Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar 23 Hydref 2018. Eleni byddwn yn dechrau rhoi camau gweithredu lu y cynllun ar waith. Bydd cyhoeddiadau'n cael eu gwneud gydol y flwyddyn, fel y bo'n briodol. |
| **12.2**<br>Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau i gefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig. | Mae'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn mynd i'r afael â'r holl feysydd hyn. |
| **12.3**<br>Cefnogi datblygu adnoddau digidol newydd dwyieithog i'w defnyddio mewn ysgolion, yn y gweithle ac wrth gymdeithasu. | Ysgolion – byddwn yn adnabod anghenion ac yn comisiynu adnoddau i fodloni gofynion y cwricwlwm a chymwysterau.<br><br>Y gweithle – un o dair prif thema'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yw Cyfieithu â chymorth cyfrifiadur.<br><br>Cymdeithasu – mae Prifysgol Bangor wedi gwella system lleferydd-i-destun Cymraeg yng nghyd-destun prosiect Macsen, sy'n derbyn cymorth ariannol y Llywodraeth.<br><br>Byddwn yn cefnogi ymdrechion i sicrhau nifer o wirfoddolwyr i recordio eu lleisiau fel rhan o brosiect Cymraeg Common Voice Mozilla (prosiect torfol i sicrhau data hyfforddi i wella cywirdeb adnabod lleferydd). |
| **12.4**<br>Parhau i gymell y prif gwmnïau technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt yn y Gymraeg. | Byddwn yn hwyluso deialog gyda'r prif gwmnïau TG er mwyn datblygu'r seilwaith technoleg iaith Cymraeg sydd ei angen ar y cwmnïau mawr i gynnig cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg. Gwneir hyn fel rhan o'r gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg ar waith. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **12.5**<br>Sicrhau bod y rhai sy’n cael grantiau gennym a sefydliadau sy’n hybu’r Gymraeg yn defnyddio technoleg yn dda, gan gynnwys systemau data, cyfathrebu mewnol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau marchnata. | Byddwn yn sicrhau bod y meysydd technoleg a marchnata yn cael sylw priodol gan ein partneriaid grant drwy ein grant i Hybu a Hyrwyddo’r Defnydd o’r Gymraeg. |
| **12.6**<br>Cefnogi ymdrechion i gynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar Wicipedia. | Bwriedir parhau gyda’r anogaeth i gymunedau o wirfoddolwyr Wikipedia Cymraeg drwy gynnig cymorth ariannol i gefnogi gweithdai a’r broses o greu erthyglau Cymraeg drwy ddulliau awtomatig. |

## 13. Seilwaith ieithyddol

**Ein nod:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r Strategaeth Cymraeg 2050.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **13.1**<br>Adolygu'r strwythurau presennol i sicrhau bod gennym bolisi corpora cynaliadwy (h.y. casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain) ar gyfer y Gymraeg. | Byddwn yn parhau i ddatblygu polisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg e.e. corpora, geiriaduron, terminoleg, a'r proffesiwn cyfieithu, gyda'r nod o gyhoeddi gweledigaeth ar gyfer dyfodol i'r maes yn ystod 2019-20. |
| **13.2**<br>Cefnogi cynhyrchu rhagor o adnoddau geiriadurol, corpws a therminolegol o ansawdd uchel i gefnogi dysgwyr a siaradwyr rhugl. | Byddwn yn parhau i datblygu polisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg e.e. corpora, geiriaduron, terminoleg, a'r proffesiwn cyfieithu, gyda'r nod o gyhoeddi gweledigaeth ar gyfer dyfodol i'r maes yn ystod 2019-20. Bydd y datblygiadau hyn yn rhoi'r ffocws ar y defnyddiwr, yn unol â'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2018: https://beta.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-seilwaith-ieithyddol-y-gymraeg-datblygu-chydlynu<br><br>Rydym yn ariannu rhagor o ddatblygiadau o ran technolegau iaith a thestun. Bydd hyn yn cynnwys corpora o ddata er mwyn hyfforddi datblygiadau cyfieithu, lleferydd-i-destun a deallusrwydd artiffisial newydd. |
| **13.3**<br>Parhau i gefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg fel bod gan y sector y gallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu achrededig o safon, a bod y systemau diweddaraf a ddefnyddir o ran cyfieithu peiriant ar gael i'r sector i wella cywirdeb, cyflymder a chysondeb cyfieithu. | Mae dyfodol y proffesiwn cyfieithu yn un o'r themâu dan sylw wrth i ni ddatblygu polisi ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg.<br><br>Byddwn yn parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg, a gyhoeddwyd  ar 23 Hydref 2018, sy'n ymdrin â'r dechnoleg sydd ar gael i helpu gwaith cyfieithwyr. Eleni bydd pwyntiau gweithredu lu y cynllun yn dechrau cael eu rhoi ar waith, a bydd cyhoeddiadau'n cael eu gwneud gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol.<br><br>Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sy'n cefnogi ac yn achredu cyfieithwyr yng Nghymru. |

## 14. Cynllunio ieithyddol

**Ein nod:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **14.1**<br>Sefydlu bwrdd rhaglen i sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws gwaith y Llywodraeth. | Byddwn yn cynnal cyfarfodydd y Bwrdd unwaith y tymor i adolygu cynnydd yn erbyn *Cymraeg 2050*. Caiff y Bwrdd ei ddefnyddio hefyd fel cyfrwng i brif-ffrydio egwyddorion *Cymraeg 2050* i holl feysydd gwaith y Llywodraeth. |
| **14.2**<br>Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd. | Gweler 6.4.<br><br>Arwain Mewn Cenedl Ddwyieithog: Bydd y rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddatblygu arweinwyr newydd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n defnyddio strwythurau AcademiWales, a bydd yn dechrau ar sail arbrofol yn chwarter cyntaf 2019 gyda'r gobaith o'i ehangu yn dilyn adborth o'r arbrawf cyntaf hwn.<br><br>Ystyriwn fod llawer o agweddau eraill ar ein gwaith hefyd yn rhan o'r rhaglen hon e.e. agweddau ar raglen Cymraeg i Blant, Hyfforddiant Defnydd Iaith (Rhaglen o ymyraethau i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a chynyddu'r defnydd anffurfiol ohoni mewn ysgolion), y Siarter Iaith, a'r Polisi Trosglwyddo y cyfeirir ato uchod. |
| **14.3**<br>Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio y strategaethau sirol ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Byddwn yn parhau i brif ffrydio'r Gymraeg i waith adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r targed hwn. |

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

**Ein nod:** parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
|---|---|
| **15.1**<br>Parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth, a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. | Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Is-adran y Gymraeg a swyddogion polisi eraill i weithredu'r Cynllun Tystiolaeth ar gyfer y Gymraeg 2019-20. Mae'r Cynllun yn cynnwys gwerthusiad o'r Siarter Iaith, astudiaeth ymchwil ar y Gymraeg a'r economi, ac adolygiad o'r Cynllun Grantiau i Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg. Byddwn hefyd yn cydweithio â swyddogion polisi ar werthusiad o'r Cyfnodau Sabothol i ymarferwyr, ac yn cyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth ieithyddol.<br><br>Byddwn yn datblygu Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y *Cymraeg 2050*, i gefnogi'r broses o gynllunio tystiolaeth y tu hwnt i 2019-20.<br><br>Bydd y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws gweithgaredd ymchwil y Llywodraeth yn parhau, gyda phwyslais yn 2019-20 ar ddwyn ynghyd yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu o'r gwaith prif-ffrydio dros y blynyddoedd diwethaf, fel sail ar gyfer datblygu pellach.<br><br>Byddwn yn parhau i feithrin a chynnal partneriaethau ymchwil yng Nghymru a thu hwnt drwy gyflwyno mewn cynadleddau lle bo hynny'n bosibl, a thrwy gyfrannu at y cydweithio sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chymuned Ymreolus y Basgiaid. Byddwn yn parhau i geisio meithrin capasiti ymchwil at y dyfodol drwy ddarparu cefnogaeth i ysgoloriaethau doethurol ym maes dysgu iaith. |

| Amcan 2017–21 | Blwyddyn adrodd 2019–20 |
| --- | --- |
| **15.2**<br>Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes. Byddwn hefyd yn archwilio dulliau o gasglu gwybodaeth ynghylch defnydd siaradwyr o'r Gymraeg drwy Arolygon Defnydd Iaith. | Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn dadansoddi Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan edrych ar ddata Cyfrifiad Poblogaeth a Thai o 1971 tan 2011. Nod y gwaith fydd edrych i weld sut y mae gallu unigolion yn y Gymraeg yn newid dros amser, a nodweddion y bobl hynny er mwyn deall yn well ar ba adegau yn eu bywydau y mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd.<br><br>Byddwn hefyd yn defnyddio data gweinyddol maes addysg er mwyn deall mwy am a yw plant sydd yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) yn saith mlwydd oed wedyn yn mynd ymlaen i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio, hyd at ddiwedd eu cyfnod addysg statudol a thu hwnt.<br><br>Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Is-adran y Gymraeg ac eraill sy'n defnyddio data am y Gymraeg i ddeall eu blaenoriaethau o ran cynnal arolwg defnydd iaith yn y dyfodol. Y bwriad fydd cynnal arolwg defnydd iaith o fis Gorffennaf 2019 tan ddiwedd mis Mawrth 2021. |